***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 938

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1(2), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 16 oed;"

"mae i "blwyddyn ysgol" yr un ystyr â "school year" yn adran 579(**2**) o Ddeddf 1996;"

"ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;".

(3) Yn erthygl 4, o flaen paragraff (a) mewnosoder—

"(za) sydd ym mlwyddyn 11;

(zb) nad yw mewn ysgol ac a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022;".

(4) Yn erthygl 6, ar ôl "o fewn" mewnosoder "y naill neu'r llall o'r paragraffau yn".

(5) Yn lle erthygl 7 rhodder—

"**7.** Person y mae cynllun datblygu unigol—

(a) yn cael ei lunio o dan adran 40 neu ei gadw o dan adran 42 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef;

(b) yn cael ei lunio neu ei gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf o ganlyniad i reoliad 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021(**3**)."

(**1**) O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).
(**2**) Mewnosodwyd diffiniad o "school year" gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), adran 57, paragraff 43 o Atodlen 7.
(**3**) O.S. 2021/401 (Cy. 130).